



YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ pennaeth.parcybont@anglesey.gov.uk

Pennaeth Mewn Gofal / *Acting Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



5ed o Fedi 2016

Annwyl Rieni,

Croeso yn ôl i bawb wedi gwyliau'r haf, a chroeso arbennig i griw o blant newydd yn yr ysgol. Ar ddechrau blwyddyn ysgol fel hyn, hoffwn dynnu eich sylw at y materion yma:

Monitro Presenoldeb a Phrydlondeb

Rydym yn monitro presenoldeb a phrydlondeb yn ofalus iawn. Mae'r diwrnod ysgol yn dechrau am 8.50am ac fe ofynnaf yn garedig i chwi ofalu fod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Os yw plentyn yn absennol o'r ysgol gofynnwn yn garedig i chi ffonio'r ysgol cyn 9.00am. Rydym yn monitro presenoldeb disgyblion unigol yn fanwl bob hanner tymor a bydd yr ysgol yn hysbysu rhieni ar ddiwedd pob hanner tymor os bydd presenoldeb eu plentyn yn disgyn o dan 90%. Ni fydd y pennaeth yn oedi i gysylltu â'r Swyddog Lles mewn achosion eithafol.

Trefniadau boreau / Clwb Gofal Cyn Ysgol / Clwb Brecwast

Bydd yr ysgol yn cynnal **clwb gofal cyn-ysgol rhwng 7.50am a 8.15am** gyda theuluoedd yn talu ffi o 75c y dydd y plentyn (os oes gan deulu dri neu fwy o blant yn mynychu'r clwb gofal cyn-ysgol yna'r ffi yw £2 y diwrnod ar gyfer y teulu). Os ydych yn dymuno manteisio ar y clwb brecwast, yna mae'r clwb yn cychwyn am **8.15am** a bydd brecwast yn cael ei weini hyd at **8.30am** - **ni** dderbynnir plant i'r clwb wedi'r amser yma. (Cymerir yn ganiataol y bydd plant y Clwb Gofal Cyn Ysgol yn aros i'r Clwb Brecwast).

PWYSIG: NI ellir danfon plant i'r Clwb Brecwast cyn 8.15am. Os nad ydynt yn y Clwb Brecwast erbyn 8.30am dylech fod yn ymwybodol nad ydym yn derbyn cyfrifoldeb, nag yn goruchwyllo'r plant cyn 8.40am.

Taliadau Cinio

Erbyn canol Medi byddwn yn gallu cynnig system talu ar-lein drwy *Schoolgateway* - byddwn yn eich hysbysu o'r union ddyddiad ac yn gyrru rhagor o fanylion maes o law. Cyn cofrestru mae'n bwysig eich bod yn llenwi y bonyn ar ddiwedd y llythyr hwn er mwyn sicrhau ein bod gyda'ch manylion cyswllt cywir a'i ddychwelyd i'r ysgol o.g.y.dd. Dylid bod yn amyneddgar gyda'r trefniant newydd ar y dechrau gan y bydd gwahanol broblemau yn siŵr o godi ac rydym yn hyderus y bydd yn sicrhau hwylustod i bawb yn yr hir dymor.

Os fyddwch yn dymuno parhau i dalu ag arian parod yna gofynnaf yn garedig i chwi dalu am ginio'r wythnos ar **DDYDD LLUN** (£2.10 y dydd). Mae'n bwysig rhoi'r arian cinio **mewn amlen** gyda enw'r plentyn a'r dyddiau maent yn cael cinio wedi'i nodi. Os fydd eich plentyn yn absennol yn ystod yr wythnos, yna bydd y tâl yn cael ei nodi fel credyd ar gyfer yr wythnos ganlynol. Ni roddir newid.

Llefrith

Mae llefrith yn cael ei gynnig am ddim i blant y Cyfnod Sylfaen.

Ym Mlwyddyn 3 i 6 codir tâl o 10c y dydd, ac os yw eich plentyn yn dymuno cael llefrith yna bydd rhaid talu am y tymor o **flaen llaw** - cyfanswm o £7.00 ar gyfer y tymor yma. Hysbyswch yr ysgol **erbyn ddiwedd yr ysgol** drwy nodyn a thâl os yw eich plentyn (Bl.3 i 6) yn dymuno cael llefrith yn ddyddiol os gwelwch yn dda.

Gwisg Ysgol

Taer erfyniaf arnoch i labelu pob dilledyn yn gwbl glir, yn enwedig siwmperi a chardiganau.

Addysg Gorfforol

Cynhelir gwarsi addysg gorfforol ar y dyddiau yma:

Meithrin/Derbyn - Dydd Llun a Gwener

Bl.3 a 4 - Dydd Mawrth a Iau

Bl. 1 a 2 - Dydd Mercher a Iau

Bl. 5 a 6 - Dydd Llun a Mercher

Sicrhewch fod gan eich plentyn siort, crys-T ac esgidiau ymarfer ar gyfer pob gwars.

Cyfathrebu â rhieni



Byddwn yn anfon negeseuon testun i'ch ffôn symudol i'ch atgoffa o wahanol ddigwyddiadau ac i ddarparu gwybodaeth ar fyr rybudd. Er mwyn gwirio fod ganddom eich rhif ffôn cywir byddwn yn anfon neges destun brawf ddydd Mercher. Os na fyddwch wedi derbyn y neges, cysylltwch â'r ysgol.

Mae nifer fawr ohonoch wedi dewis derbyn llythyrau/gwybodaeth drwy ebost ac mae hyn yn arbed amser ac arian yn sylweddol. Gwiriwch eich bod wedi derbyn y llythyr hwn drwy ebost fel prawf. Hefyd, rhoddir copiâu o lythyrau ar ein gwefan www.parcybont.co.uk.

Rydym yn rheadru gwybodaeth, dyddiadau a lluniau gwahanol weithgareddau ar ein gwefan ac ar Facebook a Twitter. Hoffwch ein tudalen Facebook 'Ysgol Parc y Bont' neu ein dilyn ar y trydar @YsgolParcyBont.

Gwyliau Ysgol 2016-2017

24ain – 28ain Hydref 2016 (Hanner-Tymor)
19eg Rhagfyr 2016 – 2il Ionawr 2017 (Gwyliau'r Nadolig)
20fed – 24ain Chwefror 2017 (Hanner-Tymor)
10fed Ebrill 2017 – 21ain Ebrill 2017 (Gwyliau'r Pasg)
1af Mai 2017 (Calan Mai)
29ain Mai – 2il Mehefin 2017 (Hanner-Tymor)

Ysgol yn cau am wyliau Haf 21ain Gorffennaf 2017.

Dyddiau HMS – ysgol ar gau

Dydd Llun Hydref 31ain 2016
Dydd Gwener 17eg Chwefror 2017
Dydd Llun 27ain Chwefror 2017

Edrychaf ymlaen am flwyddyn o gydweithio esmwyth â chwi.

Yn gywir

Iwan Wyn Taylor

Manylion rhiant (Cysylltydd 1):

Enw'r plentyn/plant & dosbarth: _____

Enw'r rhiant: _____

Cyfeiriad ebost: _____

Rhif ffôn symudol: _____

Dychwelwch y bonyn yma i'r ysgol o.g.y.dd

